

# Ymgynghori & Ymgysylltu Cymunedol Effeithiol

Un Llais Cymru
One Voice Wales

## Pam Mae Hyn Yn Bwysig

Mae cynghorau cymuned a thref yn rhan ganolog o fywyd lleol. Po fwyaf a wrandawn ar bobl leol, eu cynnwys mewn penderfyniadau, ac adeiladu perthnasoedd parhaus, po fwyaf y bydd pobl yn ymddiried yn ein cynghorau ac y deuant yn effeithiol ac ymatebol.

Mae ymgysylltu da yn golygu mwy nac ymgynghoriadau untro, mae'n golygu adeiladu deialog barhaus a helpu pobl leol i deimlo cysylltiad gyda gwaith eu cyngor. Mae'r canllaw hwn yn cynnig ffyrdd syml, ymarferol o wneud yn union hynny, beth bynnag eich maint neu adnoddau.



Gwyliwch Weminar 'Ymgysylltu Cymunedol: Ymgynghoriadau Effeithiol' Un Llais Cymru

## Pam Ymgynghori & Ymgysylltu

Ystyr technegol ymgynghori yw unrhyw weithgarwch sy'n rhoi llais i bobl leol a chyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau pwysig. Mae'n golygu gwrando ar a dysgu gan bobl leol cyn gwneud penderfyniadau neu bennu blaenoriaethau.

### Beth yw'r manteision?

- Gwell penderfyniadau wedi'u gwreiddio ym mlaenoriaethau'r gymuned
- Mewnwelediadau, awgrymiadau a syniadau newydd
- Mwy o dryloywder ac ymddiriedaeth
- Deall lefelau bodlonrwydd gyda gwasanaethau

Mae **ymgysylltu cymunedol** yn broses ehangach a pharhaus o adeiladu perthnasoedd ac annog pobl i gymryd rhan. Mae'n meithrin cydweithio a rhannu perchnogaeth.

### Beth yw'r manteision?

- Cymunedau cryfach, mwy gwydn
- Gwasanaethau sydd wedi'u cysylltu'n well ag anghenion go iawn
- Mwy o ymglymiad dinesig
- Mwy o gefnogaeth i brosiectau a gwasanaethau'r cyngor

## Heriau Cyffredin

- **Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu Isel:** Nid yw llawer o bobl yn gwybod beth mae cynghorau'n ei wneud na sut i ymgysylltu.
- **Adnoddau Cyfyngedig:** Cyllidebau bychain ac ychydig o staff, yn ei gwneud yn anodd cynnal gweithgareddau ymgysylltu mawr parhaus.
- **Grwpiau tangynrychioledig:** Mae cyrraedd pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, neu bobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol yn galw am dargedu ymdrechion.
- **Diffyg Ymddiriedaeth:** Mae profiadau negyddol yn y gorffennol yn gallu gwneud pobl yn amharod i gymryd rhan.
- **Safbwyntiau amrywiol a chroes:** Nid yw tafoli blaenoriaethau gwahanol yn syml bob tro.

## Cynllunio eich ymgynghoriad:

- **Diffiniwch eich amcanion:**

Beth rydych eisiau ei wybod? Pa benderfyniad sydd angen mewnbwn?

- **Nodwch eich Budd-ddeiliaid:**

Gan bwy ddylech chi glywed? Pa leisiau sydd ar goll?

- **Byddwch yn gynhwysol:**

Defnyddiwch iaith syml a chyfieithwch y deunyddiau.
Partnerwch gyda grwpiau lleol dibynadwy.
Ewch i ble mae pobl yn barod.

- **Gweithredwch ar Adborth:**

Adlewyrchwch safbwyntiau mewn penderfyniadau, dangoswch enillion cyflym, dywedwch diolch.

- **Rhannwch yr hyn a glywsoch:**

Cyhoeddwch grynodebau mewn iaith syml.
Defnyddiwch ffeithluniau neu fideos byr
Byddwch yn agored am beth ellid ac na ellid ei newid

### Awgrymiadau ar gyfer Llwyddiant Parhaus

- **Dechreuwch yn gynnar:** Cynhwyswch bobl cyn i benderfyniadau gael eu gwneud.
- **Cyd-gynhyrchwch:** Gadewch i bobl leol helpu llunio'r ymgynghoriad ei hun.
- **Gwerthuswch:** Edrychwch yn ôl ar yr hyn a weithiodd ac na weithiodd.

**ADEILADWCH BERTHNASOEDD, NID YMATEBION YN UNIG**

- Sesiynau galw heibio, digwyddiadau cymunedol rheolaidd
- Presenoldeb ar-lein ac oddi-ar-lein cryf (cylchlythyron, cyfryngau cymdeithasol, posteri.
- Partneriaethau gyda grwpiau lleol, eglwysi, ysgolion
- Paneli'r bobl, grwpiau ieuenctid, cynllunio dan arweiniad y gymuned

### Ymgyrchoedd Cyfryngau Cymdeithasol

#### Arolygon & Holiaduron

- Llwyfannau Ar-lein: Survey Monkey, Google & Microsoft Forms
- Copïau papur mewn canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd a mannau cyhoeddus
- Cadwch gwestiynau yn fyr, clir a phenodol

#### Dulliau Wyneb yn Wyneb:

- Cerdded o Gwmpas y Gymuned: teithiwch ardaloedd i siarad yn uniongyrchol â phobl leol
- Stondinau Unnos mewn marchnadoedd a digwyddiadau lleol
- Grwpiau Ffocws a fforymau cymunedol
- Digwyddiadau Anffurfiol: Ciniawau Mawr, codi sbwriel, picnicau

#### Ymgysylltu Digidol:

- Arolygon & Phleidleisiau Ar-lein
- Ymgyrchoedd Cyfryngau Cymdeithasol

#### Dulliau Creadigol:

- Prosiectau celf, cerddoriaeth & ffotograffiaeth
- Prosiectau pontio'r cenedlaethau
- Digwyddiadau theatr neu adrodd stori

## Cyd-gynhyrchu: Gwneud Pethau Gyda, Nid Dros

Mae cyd-gynhyrchu yn golygu gweithio mewn partneriaeth gyfartal gyda phobl leol i gynllunio a darparu gwasanaethau, prosiectau, neu atebion. Yn hytrach na gofyn am ymatebion ar ôl gwneud penderfyniadau, mae cyd-gynhyrchu yn cynnwys pobl o'r cychwyn – gan werthfawrogi profiad bywyd ynghyd ag arbenigedd broffesiynol. Mae hyd yn oed cynghorau bach yn gallu cyd-gynhyrchu trwy gynnwys pobl leol yn y gwaith o lunio blaenoriaethau, cyd-drefnu digwyddiadau, neu gyd-gynllunio atebion i faterion lleol.

## Cyllidebu Cyfranogol

Pecyn Cyllidebu Cyfranogol

Ffordd o gynnwys pobl leol yn y gwaith o benderfynu sut i wario rhan o gyllideb y cyngor.
Mae arfer da yn cynnwys:

- Cyfarfodydd cyhoeddus i drafod blaenoriaethau
- Rhannu cyllidebau drafft a gwahodd sylwadau
- Arolygon neu bleidleisiau i nodi blaenoriaethau

Mae hyn yn adeiladu ymddiriedaeth, yn gwella dilysrwydd, ac yn sicrhau bod gwariant yn gydnaws ag anghenion lleol.

## Deddfwriaeth & Grymoedd

Mae gan gynghorau yng Nghymru yr awdurdod cyfreithiol i ymgynghori ac ymgysylltu o dan:
**Ddeddf Llywodraeth Leol 1972**
**Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**
Mae'r grymoedd hyn yn cefnogi ymgynghori ar lesiant, gwasanaethau, cyllidebau, a phraeseptau.

**Mae grymoedd & chyfiawnhadau yn gallu amrywio, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw. Er mwyn cael cyngor & arweiniad, efallai y bydd cynghorau am gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru. gweinydd@unllaiscymru.cymru**

## Pam Mae Ymgysylltu yn Helpu Gydag Ariannu

Mae darparwyr grantiau yn chwilio am:

- Tystiolaeth o angen lleol
- Cefnogaeth y gymuned
- Prosiectau gwybodus sy'n cael cefnogaeth leol

Mae ymgysylltu parhaus yn cryfhau eich cais am arian ac yn dangos parodrwydd i wneud argraff.

## Enghreifftiau o Arfer Da

Fel rhan o fenter i ymgysylltu â chymuned wledig ar faterion TG cwblhaodd **Cyngor Cymuned Rhosili** ddadansoddiad anghenion y gymuned. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon fe ddatblygwyd prosiect hwb cymunedol i ddarparu cymorth digidol.

Er mwyn deall y problemau yr oedd y gymuned yn eu hwynebu a thargedu eu hadnoddau cynhaliodd **Cyngor Tref Cricieth** ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus ar draws y gymuned er mwyn datblygu 'Cynllun Bro'

Defnyddiodd **Cyngor Cymuned Aberporth** ddull aml-weddog i ymgynghori â phobl leol er mwyn sefydlu eu blaenoriaethau i'r gymuned a chefnogi codiad o 25% yn y praesept er mwyn ysgwyddo gwasanaethau ychwanegol.

Mae Digwyddiadau Cymunedol **Cyngor Tref Blaenafon** yn cynnig cyfle am rwydweithio hwylusol rhwng grwpiau cymunedol a'r Cyngor, ac fe leolir cynghorwyr yn strategol er mwyn annog a hwyluso deialog.

Sefydlodd **Cyngor Tref Y Trallwng** stondin marchnad yn cynnig cynllun 'rhoi a chymryd' ar gyfer cynnyrch rhandir a roddwyd, ac fe'i defnyddiwyd yn ffordd anffurfiol ac effeithiol o ymgysylltu â'r gymuned o wythnos i wythnos

Cynhaliodd **Cyngor Cymuned Llandochau** arolwg ymgynghori i gasglu barn pobl hŷn ar flaenoriaethau lleol, gwasanaethau sydd eu hangen, a sut orau allai'r cyngor gynnal eu llesiant a'u cynhwysiant.

## Gwybodaeth Ddefnyddiol:

**Canllaw Ymarferwyr ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar Ymgysylltu Cyhoeddus yng Nghymru.**

**Adeiladu Ymddiriedaeth Cymunedol**
**Adnodd Dysgu a Rennir ar gyfer Cymunedau**

**Grant Ymgysylltu Democrataidd Llywodraeth Cymru**

## Eisiau Gwybod Mwy?

**Er mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:**

Un Llais Cymru

CoLC@onevoicewales.wales

https://bit.ly/3KYHftK